

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Ymrwymiad

O fewn y polisi hwn, mae'r term "Grŵp", yn cyfeirio at yr holl ddarparwyr o fewn Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro.

Ategir y polisi hwn gan weledigaeth y Grŵp - Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol, a bydd yn cefnogi'r Coleg i weithio tuag at ein prif sbardunau Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwff. Bydd y polisi'n ymgorffori'r egwyddorion a ganlyn:

- Rhaid i'r rhai sy'n cael mynediad i ddysgu ar draws y Grŵp fod yn **rhydd rhag gwahaniaethu**.
- Bydd dysgwyr yn cael eu cefnogi i'w **galluogi** i gyflawni eu **potensial** wrth ddysgu, mewn amgylchedd sy'n dileu neu'n lleihau anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i **symud ymlaen** yn llwyddiannus trwy eu bywydau.

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i sicrhau diogelwch a lles pob dysgwr. Rydym yn cydnabod bod diogelu a hyrwyddo lles ein dysgwyr yn gyfrifoldeb i bawb ac rydym bob amser wedi ymrwymo i weithredu er pennaf les y dysgwyr.

Cwmpas a Phwrrpas y Polisi

Pwrrpas y polisi hwn yw sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol ar waith ar draws Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro. Mae gan y Grŵp ddyletswydd foesol a statudol i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy'n wynebu risg, a'u diogelu rhag niwed neu gamdriniaeth. Mae gan y Grŵp ymagwedd o ddim goddefgarwch at gamdriniaeth ac unrhyw ymddygiad niweidiol arall.

Mae'r polisi hwn, a'r holl weithdrefnau Diogelu cysylltiedig ar draws y Grŵp, yn berthnasol i'r holl staff a dysgwyr. Er bod gan staff lefelau amrywiol o gysylltiad â dysgwyr, rhaid i bawb fod yn ymwybodol o ddangosyddion posibl esgeulustod a chamdriniaeth a bod yn glir ynghylch beth i'w wneud os oes ganddynt bryder.

Bydd y polisi hwn yn sicrhau bod arferion ar draws y grŵp yn gyson, yn unol â'u gwerthoedd cyffredin, yn hyrwyddo arfer da ac yn sicrhau bod pob dysgwr yn ddiogel. Mae'r polisi hwn yn nodi'n glir y disgwyliad y bydd gan bob darparwr yn y grŵp eu gweithdrefnau diogelu eu hunain sy'n cydymffurfio â'r gyfraith ac sy'n gadarn i sicrhau diogelwch a lles dysgwyr.

Byddwn yn sicrhau bod dysgwyr ar bob lefel a math o ddarpariaeth yn cael eu cyfeirio'n glir at unrhyw sefydliad neu gorff allanol sy'n goruchwyllo darpariaeth, safonau, disgwyliadau neu iawn

megis corff dyfarnu, yr ASA neu'r Swyddfa Dyfarnwyr Annibynnol ar gyfer AU (nid yw'r rhestr hon yn gyflawn).

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob dysgwr ar bob rhaglen ddysgu waeth beth fo'r dull neu'r lleoliad astudio.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob partner a sefydliad masnachfaint.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i ymwelwyr â'r Grŵp.

Datganiadau Polisi

Mae'r polisi diogelu trosfwaol hwn yn amlinellu ymagwedd gyfunol y Grŵp at Ddiogelu. Nid yw'r polisi hwn yn amlinellu'r prosesau a'r gweithdrefnau unigol ar gyfer pob sefydliad, mae wedi'i gynllunio i ategu a thanategu'r gweithdrefnau diogelu presennol sydd ar waith ar draws y grŵp.

Bydd y polisi hwn yn sicrhau bod arferion ar draws y grŵp yn gyson, yn unol â'u gwerthoedd cyffredin, yn hyrwyddo arfer da ac yn sicrhau bod pob dysgwr yn ddiogel.

Diogelu

Diogelu yw'r camau a gymerir i hyrwyddo lles dysgwyr a'u hamddiffyn rhag niwed. Mae diogelu yn golygu:

- Amddiffyn ein dysgwyr rhag camdriniaeth a chamdrin
- Atal amhariad ar iechyd neu ddatblygiad dysgwyr
- Sicrhau bod plant yn tyfu mewn amgylchiadau sy'n gyson â darparu gofal diogel ac effeithiol
- Cymryd camau i alluogi pob dysgwr i gael y canlyniadau gorau

Mae'r timau diogelu ym mhob sefydliad yn sicrhau bod y Grŵp yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth statudol, gan gynnwys y Ddyletswydd Atal.

Amddiffyn Plant

Mae amddiffyn plant yn rhan o'r broses ddiogelu. Mae'n canolbwyntio ar amddiffyn plant unigol y nodir eu bod yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefnau amddiffyn plant sy'n manylu ar sut i ymateb i bryderon am blentyn.

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i sicrhau diogelwch a lles pob dysgwr. Rydym yn cydnabod bod diogelu a hyrwyddo lles ein dysgwyr yn gyfrifoldeb i bawb ac rydym bob amser wedi ymrwymo i weithredu er lles gorau dysgwyr. Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu gan yr Unigolyn Diogelu Dynodedig (DSP) yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn ymgorffori'r holl gyngor a chanllawiau diogelu lleol a chenedlaethol. Fe'i cwblhawyd yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau'r llywodraeth a gweithdrefnau a nodir yng [Ngweithdrefnau Diogelu Cymru](#) a [Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro](#). I gael disgrifiad manylach o faterion diogelu, gweler Atodiad 1 a gweithdrefnau diogelu'r grwpiau unigol.

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i greu amgylchedd diogel i'r gymuned gyfan. Mae'r polisi hwn yn ceisio cefnogi pob dysgwr, gan gynnwys plant, pobl ifanc, oedolion bregus ac oedolion a all fod yn fregus dros dro.

Y timau sy'n gyfrifol am gadw ar y blaen ag unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth a chanllawiau presennol ac unrhyw ddeddfwriaeth neu ganllawiau newydd. Mae'r timau diogelu yn gweithredu'r egwyddorion canlynol ac yn ceisio:

- deall y cyd-destun ac adnabod y risgiau;
- cymryd camau i atal a lleihau niwed;
- datblygu mewn dysgwyr y sgiliau a'r gwytnwch i osgoi, gwrthsefyll a gwella o niwed; a
- ymgysylltu â rhieni/gofalwyr, staff, asiantaethau partner a'r gymuned ehangach i leihau'r risg o niwed.

Bydd y Grŵp yn cefnogi pob dysgwr trwy:

- datblygu'r rhaglen diwtorial a chynnwys y cwricwlwm i hysbysu dysgwyr a chaniatáu cyfleoedd i drafod materion diogelu, gan gynnwys camdriniaeth cymheiriaid ac atal ymddygiad radical;
- cynnal ethos coleg sy'n hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cynhwysol, lle caiff pawb eu gwerthfawrogi;
- cofnodi a rheoli'r holl bryderon a adroddwyd;
- cynnal asesiadau risg yn ôl yr angen; a
- cydweithio â chydweithwyr mewnol ac allanol i nodi a lleihau risgiau.

Cefnogaeth Diogelu Benodol

Dyletswydd 'Prevent'

Mae'r Grŵp yn cydnabod ei ddyletswydd o dan adran 26 o Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 i roi 'sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth'. Bydd pob aelod o staff yn cael hyfforddiant ac arweiniad ar y Ddyletswydd 'Prevent' fel eu bod yn gallu nodi dysgwyr a allai fod yn agored i ymddygiad radical a deall sut i roi gwybod am eu pryderon. Rhaid i staff fod yn effro i newidiadau yn ymddygiad dysgwr a allai ddangos y gallai fod angen ei amddiffyn.

Cyfrifoldeb y DSPs ym mhob sefydliad yw codi ymwybyddiaeth o risgiau ymddygiad radical a sicrhau bod pob rhanddeiliad yn cael hyfforddiant digonol. Bydd y DSPs yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am fygythiadau a materion lleol a chenedlaethol cyfredol sy'n ymwneud ag ymddygiad radical, gan gynnwys ymwybyddiaeth o'r bygythiad presennol, mwyaf i'w dysgwyr. Mae cydweithio â sefydliadau allanol yn hanfodol i gyflawni hyn.

Bydd y Grŵp yn ceisio meithrin gallu dysgwyr i wrthsefyll ymddygiad radical trwy hyrwyddo gwerthoedd Prydeinig, egwyddorion democrataidd a hyrwyddo parch at ddiwylliannau eraill.

Camdriniaeth Cyfoedion

Mae'r Grŵp yn cymryd bwllo ac aflonyddu o ddifrif ac wedi ymrwymo i sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei drin yn gyfartal a chyda pharch. Ni fydd camymddwyn rhywiol ac aflonyddu yn cael ei

oddef. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cyfeirio at unigolion pan fyddant y tu mewn a thu allan i'n sefydliadau ac mae'n cynnwys defnydd o'r rhyngwrdd a dyfeisiau cyfathrebu electronig megis e-bost, ffonau symudol, consolau gemau, gwefannau rhwydweithio cymdeithasol ac ati. Mae'r Grŵp yn cydnabod bod potensial ar gyfer camdriniaeth rhwng pobl ifanc, a bydd staff yn parhau i fod yn wiliadwrs o arwyddion camdriniaeth cyfoedion. Bydd staff yn dilyn gweithdrefnau diogelu eu sefydliad i adrodd a rheoli unrhyw bryderon.

Mae'r polisi hwn wedi'i ddiweddarau ym mis Gorffennaf 2021 gan ddefnyddio [canllawiau Llywodraeth Cymru, 'Canllaw i leoliadau addysg ar Cam-drin rhywiol gan gyfoedion, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol](#). I gael rhagor o wybodaeth darllenwch bolisiau a gweithdrefnau Bwlio ac Aflonyddu'r sefydliad.

Dysgwyr Bregus

Mae rhai dysgwyr yn fwy bregus nag eraill oherwydd angen gofal neu gymorth penodol ac amgylchiadau unigol neu gartref. Maent yn cynnwys dysgwyr sydd:

- sydd ar, neu wedi bod ar, y gofrestr Amddiffyn Plant;
- yn derbyn gofal neu wedi derbyn gofal;
- yn ofalwyr ifanc;
- yn geiswyr lloches;
- wedi profi trawma sylweddol (yn ddiweddar neu'n hanesyddol);
- ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY); a/neu
- ag anabledd.

Bydd y Grŵp yn darparu cymorth ychwanegol i ddysgwyr bregus yn ôl yr angen. Bydd y timau diogelu ym mhob sefydliad yn gweithio gyda chydweithwyr mewnol ac allanol i nodi a darparu'r cymorth hwn, gan gyfeirio dysgwyr at sefydliadau allanol fel y bo'n briodol.

Llurgunio Organau Rhywiol Menywod (FGM)

Mae Llurgunio Organau Rhywiol Menywod yn fath o gamdriniaeth plant ac felly ymdrinnir ag ef yn y polisi hwn. Mae Llywodraeth y DU wedi ysgrifennu cyngor a chanllawiau ar FGM sy'n nodi; "Mae FGM yn cael ei ystyried yn gamdriniaeth plant yn y DU ac yn drosedd ddifrifol yn erbyn hawliau dynol merched a menywod. O dan yr holl amgylchiadau lle mae FGM yn cael ei ymarfer ar blentyn mae'n groes i hawl y plentyn i fywyd, ei hawl i gyfanwydd corfforol, yn ogystal â'i hawl i iechyd. Mae Llywodraeth y DU wedi arwyddo nifer o gyfreithiau hawliau dynol rhyngwladol yn erbyn FGM, gan gynnwys y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn."

Mae'r Grŵp yn cydnabod bod arfer FGM yn y DU yn drosedd a bydd yr holl staff yn adrodd am bryderon bod FGM wedi'i gyflawni, neu ar fin cael ei gyflawni ar ddysgwr o dan 18 oed, i'r heddlu.

Dysgwyr 14-16 oed

Mae myfyrwyr 14-16 oed y mae eu prif ddarparwr addysg yn ysgol yn cael eu cwmpasu gan bob agwedd ar y polisi hwn pan fyddant ar unrhyw un o safleoedd y Grŵp. Bydd y timau diogelu ym mhob sefydliad yn cysylltu ag awdurdodau lleol a'r arweinwyr diogelu mewn ysgolion i sicrhau bod

gwybodaeth yn cael ei rhannu yn ôl yr angen. Bydd polisiâu Diogelu Data a Phreifatrwydd y sefydliad yn adlewyrchu pwysigrwydd rhannu gwybodaeth os oes angen er mwyn diogelu plant.

Recriwtio Mwy Diogel

Bydd pob sefydliad o fewn y grŵp yn cydymffurfio â gweithdrefnau recriwtio mwy diogel gan gynnwys:

- cynnal gwiriadau Datgelu a Gwahardd i sicrhau bod yr holl staff yn addas ar gyfer cyflogaeth,
- nodi a gwrthod ymgeiswyr sy'n anaddas i weithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus
- ymateb i bryderon am addasrwydd ymgeiswyr yn ystod y broses recriwtio,
- ymateb i bryderon am addasrwydd gweithwyr a gwirfoddolwyr ar ôl iddynt ddechrau eu rôl, a
- sicrhau bod yr holl staff a gwirfoddolwyr newydd yn cymryd rhan mewn sesiwn sefydlu sy'n cynnwys diogelu/amddiffyn plant.

Dylai fod gan dimau adnoddau dynol ym mhob sefydliad hefyd bolisiâu a gweithdrefnau clir yn ymwneud â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (gwiriadau DBS) ac ymddygiad staff sy'n ymwneud â diogelu. Bydd y timau'n sicrhau bod aelodau o staff sydd wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg Cymru (CGA) yn ymwybodol o'r Cod Ymddygiad Proffesiynol a'r disgwyliad yn y Cod ynghylch diogelwch a lles dysgwyr yn eu gofal a'r cynnwys diogelu cysylltiedig.

Bydd gan bob sefydliad bolisiâu a gweithdrefnau ar gyfer rheoli honiadau am aelodau o staff a byddant yn dangos eu dyletswydd gofal i gefnogi pawb sy'n gysylltiedig â'r broses.

Diogelwch Ar-lein

Bydd pob sefydliad yn cyfeirio at ganllawiau a chyngor Llywodraeth Cymru a ddisgrifir yn y ddogfen [Ffrydio byw a fideogynadledda: arferion ac egwyddorion diogelu](#) i sicrhau bod ein cymuned o ddysgwyr yn parhau i fod yn ddiogel wrth ddysgu ar-lein. Rhoddir cyngor a hyfforddiant rheolaidd i staff a dysgwyr ynghylch diogelwch ar-lein.

Rhoi gwybod am Bryderon

Pa bryd i fod yn bryderus

Gallai dysgwyr wynebu risg yn eu teulu, mewn lleoliad sefydliadol neu gymunedol, gan y rhai y maent yn eu hadnabod neu, yn anaml, gan ddieithryn.

Gallai camdriniaeth fod ar ffurf:

- Cam-drin corfforol
- Cam-drin rhywiol
- Camdriniaeth emosiynol
- Esgeulustod
- Camdriniaeth ariannol
- Camdriniaeth seicolegol

Am arwyddion a dangosyddion camdriniaeth, gweler Atodiad 1.

Dyletswydd i Adrodd

Mae gan bob rhanddeiliad (gan gynnwys llywodraethwyr ac ymwelwyr) ddyletswydd i adrodd am bryderon diogelu yn unol â [Gweithdrefnau Diogelu Cymru](#). Bydd gan bob sefydliad o fewn Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro ei weithdrefnau adrodd ei hun a fydd wedi'i nodi yn eu dogfen Gweithdrefnau Diogelu. Rhaid cyflwyno adroddiad os oes gan unigolyn bryder neu amheuaeth bod dysgwr:

- yn profi neu'n wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu fathau eraill o niwed¹;
- ag anghenion gofal a chymorth;
- ag anghenion gofal a chymorth, ac o ganlyniad i'r anghenion hynny yn methu ag amddiffyn ei hun rhag camdriniaeth, esgeulustod neu'r risg o hynny.

Os oes gan unrhyw unigolyn wybodaeth, pryderon neu amheuan bod plentyn yn dioddef, wedi dioddef neu'n debygol o fod yn wynebu risg o niwed, eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau bod y pryderon yn cael eu cyfeirio at dîm diogelu'r sefydliad. Mae hyn yn sicrhau y gellir hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu, sydd â dyletswyddau a phwerau statudol i wneud ymholiadau ac ymyrryd pan fo angen.

NID YW HYN YN FATER O DDEWIS PERSONOL.



Trefniadau Diogelu Cymru
Safeguarding Procedures Wales

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i:

- Pob dysgwr o fewn y Grŵp, waeth beth fo'r dull neu'r lleoliad astudio.
- Holl staff y Grŵp.
- Pob partner a sefydliad masnachfaint.
- Ymwelwyr â'r Grŵp.

Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethol yn gyfrifol am sicrhau:

- Bod y polisi'n cael ei adolygu'n rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) a rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd sy'n cymeradwyo'r polisi.

Timau Uwch Arweinyddol

- Bod â chyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion yn effeithiol ar draws y Grŵp. Maent yn gyfrifol am ddatblygu trefniadau llywodraethu effeithiol a sicrhau bod polisiâu perthnasol ar waith ar draws y Grŵp.

Bydd Unigolion Diogelu Dynodedig (DSPs) yn:

¹ Gweler Atodiad 1 am eglurhad pellach

- Sicrhau bod gan bob sefydliad unigol weithdrefnau diogelu ar waith sy'n cefnogi rheoli diogelu yn effeithiol ar draws y grŵp.
- Sicrhau bod y polisi hwn a'r gweithdrefnau diogelu yn cael eu gweithredu'n effeithiol ar draws y Grŵp.
- Sicrhau bod systemau ar waith i gadw cofnodion manwl, cywir a diogel o bryderon a chyfeiriadau gan ddefnyddio dulliau cofnodi achosion. (My Concern)
- Ymgymryd â hyfforddiant priodol a sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant priodol.
- Cefnogi'r Grŵp i ddeall gofynion y ddyletswydd 'Prevent' a darparu cyngor a chefnogaeth ar amddiffyn y rhai sy'n wynebu risg o oddef ymddygiad radical.
- Cefnogi'r Grŵp i ddeall gofynion deddfwriaeth diogelu a darparu cyngor a chefnogaeth ar amddiffyn y rhai sy'n wynebu risg o niwed.
- Sicrhau bod y polisi diogelu yn cael ei adolygu'n flynyddol.
- Gweithio mewn dull cydweithredol i sicrhau bod diogelu ar draws y grŵp yn gyson ac yn gadarn.

Bydd yr holl staff yn:

- Darllen a deall y polisi diogelu a deall y gweithdrefnau adrodd ar gyfer eu sefydliadau priodol o fewn y Grŵp.
- Ymwybodol o arwyddion a symptomau posibl camdriniaeth.
- Gwybod sut i godi pryder os oes angen.
- Deall bod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb.

Bydd yr holl staff yn:

- Darllen a deall y polisi diogelu.
- Yn ymwybodol o arwyddion a symptomau posibl camdriniaeth
- Gwybod sut i godi pryder os oes angen.
- Deall bod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb.

Bydd yr holl ddysgwyr yn:

- Mynychu sesiynau sefydlu a thiworial i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r materion y mae'n eu codi.
- Ymddwyn mewn ffordd sy'n cefnogi'r polisi, gan gynnwys codi unrhyw bryderon amdanynt eu hunain, dysgwyr eraill neu sefyllfaoedd gyda staff.
- Cadw eu hunain ac eraill yn ddiogel.

Deddfwriaeth ac Arweiniad

Rhaid i weithdrefnau diogelu ar draws y grŵp ystyried y ddeddfwriaeth ganlynol:

- [Deddf Gwrthderfysgaeth a Dedfrydu 2021](#)
- [Deddfau Diogelu Rhyddid \(2012\)](#)

- [Deddf Hawliau Dynol \(1998\)](#)
- [Deddf Plant \(2004\)](#)
- [Deddf Cydraddoldeb \(2010\)](#)
- [Deddf Addysg \(2002\)](#)
- [Strategaeth Atal \(2011\)](#)
- [Mewn Dwylo Diogel: Gweithredu Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion yng Nghymru](#)
- [Canllawiau Atal Dyletswydd ar gyfer Addysg Bellach \(2021\)](#)
- [Gweithdrefnau Diogelu Cymru \(2019\)](#)
- [Dogfen Cadw Dysgwyr yn Ddiogel \(2021\) rhif: 283/2022](#)
- [Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro](#)
- [Gweithdrefnau Cwyno ar gyfer Cyrff Llywodraethu Ysgolion yng Nghymru 2012](#)
- [Deddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006](#)
- [Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio 2003](#)
- [Delio â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff nad ydynt yn addysgu](#)
- [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) (Mae Rhan 7 o'r Ddeddf yn ymwneud â diogelu)
- [Deddf Llurgunio Organau Cenhedlu Menywod \(2003\)](#)
- [Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn \(CCUHP\)](#)
- [Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc \(Cymru\) 2011](#)
- [Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: cynllun blynyddol cyngorwyr cenedlaethol 2021 i 2022](#)

Nid yw'r rhestr yn gyflawn a gellir ychwanegu ati drwy statud yn y dyfodol naill ai gan Lywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru ar faterion sydd wedi'u datganoli o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Rhannu gwybodaeth ar draws y grŵp:

Lle mae angen i un aelod o'r grŵp rannu data am ddysgwyr ag aelod arall (er enghraifft, fel rhan o'r broses bontio), bydd ar sail gwbl gyfrinachol ac angen gwybod. Bydd y wybodaeth yn cael ei rhannu rhwng yr Unigolion Diogelu Dynodedig ym mhob lleoliad. Bydd y Polisi Diogelu yn ei gwneud yn glir y bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu ar sail gyfyngedig iawn o fewn y grŵp a dim ond pan fydd yn hanfodol ar gyfer lles a diogelwch y dysgwr.

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, ysgrifennwyd y polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau sy'n dod o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg h.y. ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd o ddydd i ddydd.

Cyfeiriadau

Gweithdrefnau Diogelu Coleg Caerdydd a'r Fro
Gweithdrefnau Diogelu ACT
Gweithdrefnau Diogelu ALS

Cyfathrebu a Storio

Cyhoeddir y polisi hwn ar wefan y cwmni.
Cedwir y polisi hwn ar fewnwyd y cwmni.
Rhennir y polisi hwn gyda dysgwyr.
Bydd y polisi hwn yn cael ei gyfathrebu a'i storio gan bob sefydliad trwy eu sianeli cyfathrebu mewnol a rheoli polisi.

Geirfa

Dim

Cymeradwyo, Newid ac Adolygu

Adolygir y polisi hwn bob 2 flynedd.

Dyddiad cymeradwyo: 7 Gorffennaf 2020

Cymeradwywyd gan: Prif Fwrdd

Dyddiad adolygu nesaf: Gorffennaf 2024

Rheolwr Cyfrifol: Pennaeth Cynorthwyol Taith y Dysgwr

Arweinydd Gweithredol: : Dirprwy Bennaeth

Hygyrch i Fyfyrwyr: : Ydi

Afodiad 1

Dylai pob aelod o staff ymgysfarwyddo â [Gweithdrefnau Diogelu Cymru](#) am gyngor ac arweiniad.

Mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb.

Mae diogelu effeithiol yn gofyn:

- Bod pob aelod o staff a phob rhanddeiliad yn chwarae eu rhan a chyfrannu at ddiogelu a hyrwyddo lles dysgwyr.
- Rhannu gwybodaeth yn unol â chanllawiau².
- Staff i gydweithio â chydweithwyr mewnol ac allanol i ddeall ein dysgwyr, eu hamgylchiadau a'u hanghenion gofal, cymorth a diogelwch yn well.
- Datblygu perthnasoedd gwaith cydgynhyrchiol i gefnogi dysgwyr sy'n wynebu risg.

Diogelu Plant³

Mae gan bawb gyfrifoldeb dros ddiogelu plant. Gall pob plentyn gael ei frifo, wynebu risg o niwed neu ei gam-drin, waeth beth fo'i oed, rhyw, crefydd neu ethnigrwydd. Mae deddfwriaeth diogelu a chanllawiau'r llywodraeth yn nodi bod diogelu yn golygu:

- amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin
- atal amharu ar iechyd neu ddatblygiad plant
- sicrhau bod plant yn tyfu mewn amgylchiadau sy'n gyson â darparu gofal diogel ac effeithiol

Dylai hawliau'r plentyn fod yn hollbwysig i'n hymagwedd.

Arwyddion a Dangosyddion Camdriniaeth, Esgeulustod a Niwed posibl mewn Plentyn

Mae'r dolenni isod yn rhoi disgrifiadau o'r gamdriniaeth, yr esgeulustod a'r niwed a allai arwain at fod plentyn yn wynebu risg. Mae'n bwysig nodi NAD yw'r rhain yn rhestrau cyflawn. Yn hytrach, cânt eu darparu i gynnig awgrymiadau i ymarferwyr a allai eu rhybuddio am gamdriniaeth neu esgeulustod posibl mewn oedolyn neu blentyn.

Camdriniaeth Gorfforol <<https://diogelu.cymru/chi/cp/c1p.p2a.html>>

Camdriniaeth Rywiol

Esgeulustod

Camdriniaeth Emosiynol ac Esgeulustod

² Rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu plant: canllawiau <https://llyw.cymru/rhannu-gwybodaeth-er-mwyn-diogelu-plant>

³ Y diffiniad cyfreithiol o blentyn yw unrhyw un o dan 18 oed

Oedolion sy'n Wynebu Risg

Gall oedolion wynebu risg o gael yr un mathau o gamdriniaeth â phlant – corfforol, rhywiol ac emosiynol. Gallant hefyd wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso'n ariannol, yn enwedig os ydynt yn dibynnu ar gymorth eraill os oes ganddynt anghenion gofal neu gymorth.

Gall oedolion bregus gynnwys y rhai sydd:

- ag anabledd;
- ag anhawster dysgu sylweddol;
- yn methu ag amddiffyn eu hunain nac yn adrodd am gamdriniaeth;
- yn ddigartref; a/neu
- yn gaeth i gyffuriau neu alcohol.

Mae'r ddolen isod yn arwain at ddisgrifiad o'r gwahanol fathau o gamdriniaeth ac esgeulustod y gall oedolion sy'n wynebu risg eu profi a'r ffyrdd y gall y gamdriniaeth ddod i'r amlwg. Mae'n bwysig nodi y gall camdriniaeth fod yn gysylltiedig ag un digwyddiad penodol neu gamdriniaeth ac esgeulustod parhaus a/neu fyny. Gall y cam-drin deillio o un mater megis camddefnyddio alcohol neu gyffuriau neu groniad o amgylchiadau a straenachosydd, megis trais a cham-drin domestig, ynysu cymdeithasol ac amddifadedd.

Dylai staff fod yn ymwybodol nad yw asesu niwed yn golygu dim ond rhestru'r ffactorau risg sy'n cronni a thybio po hiraf y rhestr y mwyaf tebygol yw lefel y niwed: gall un ffactor risg gael effaith sylweddol.

[Awgrymiadau Ymarfer: Arwyddion a dangosyddion posibl o gamdriniaeth ac esgeulustod mewn oedolyn sy'n wynebu risg](#)